Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chamau Gweithredu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-26

Hydref 2025

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddeall.**

Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chamau Gweithredu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-26

# Ein rôl

Mae gennym dair rôl yn bennaf.



Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy’n torri’r Cod Ymddygiad.





Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

## Ein huchelgais

- Mae pobl Cymru yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu trin yn deg ac yn ymateb pan aiff pethau o chwith.
- Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwrando ar unigolion ac yn defnyddio eu cwynion i ddysgu a gwella.
- Mae ymddiriedaeth yn llywodraeth leol Cymru i gyflawni'r safonau uchaf o ymddygiad.
- Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn llais dylanwadol ac uchel ei barch o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus.

## Ein hegwyddorion

Rydym yn

- annibynnol
- ddiduedd
- deg
- agored i bawb sydd ein hangen arnynt.

# Nod Strategol 1: Cyflawni cyfiawnder sy’n cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Targed 2024-25 | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 |
|---|---|---|---|
| 1.1. Amser cyfartalog ar gyfer cau achos (wythnosau) | | | |
| Asesiad | ≤6 | 4 | ≤6 |
| Ymchwiliad | ≤55 | 53 | ≤52 |
| 1.2. Cyfran yr adolygiadau o gwynion lle canfyddwn fod ein penderfyniad gwreiddiol yn briodol | ≥95% | 94% | ≥95% |
| 1.3. Cyfran y penderfyniadau a wnaed gan Swyddogion Ymchwilio a Rheolwr y Tîm Cod yn destun gwiriadau ychwanegol | 5% | 5% | 5% |
| 1.4. Cyfran o wiriadau sampl lle mae penderfyniad Swyddogion Ymchwilio a Rheolwr y Tîm Cod wedi'u cadarnhau fel un priodol | 100% | 100% | 100% |
| 1.5. Cyfran yr adolygiadau Ansawdd Gwasanaeth a oedd yn foddhaol neu'n well | ≥80% | 84% | ≥85% |
| 1.6. Cyfran o'r argymhellion sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn a gydymffurfiwyd â nhw yn unol â'r targed a osodwyd ar gyfer achosion a gaewyd o fewn 12 mis | ≥75% | 56% | ≥75% |
| 1.7. Cyfran y bobl a oedd yn fodlon â'n gwasanaeth | | | |
| Yr holl ymatebwyr | ≥52% | 42% | ≥52% |
| Ymatebwyr a oedd yn fodlon â'r canlyniad | ≥95% | 95% | ≥95% |
| Ymatebwyr nad oedd yn fodlon â'r canlyniad | - | 17% | - |

# Camau gweithredu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-26

**1.1. O dan ein Strategaeth Ddata newydd, sicrhau ein bod yn modelu ein capasiti yn well ar sail ein tueddiadau cwynion, gan ein helpu i fodloni'r galw cynyddol am ein gwasanaeth a disgwyliadau'r achwynwyr.**

Cyflawnwyd pan fydd gennym systemau a phrosesau ar waith i ddadansoddi'r data a thargedu ein gwaith achos yn well.

**1.2. Sefydlu platfform ar-lein sy'n hygyrch a diogel i helpu defnyddwyr gwasanaeth, cynghorwyr a sefydliadau i anfon gwybodaeth atom neu dderbyn gwybodaeth gennym.**

Cyflawnwyd pan fyddwn wedi cwblhau'r prosiect peilot ac wedi gwerthuso'r cyfleoedd i'w gyflwyno ymhellach.

**1.3. Lleihau cyfran yr ymchwiliadau Cod Ymddygiad sy'n agored ac sy'n heneiddio.**

Cyflawnwyd pan nad yw achosion Cod Ymddygiad agored, dros 12 mis, sy'n heneiddio, yn ffurfio mwy na 20% o'n llwyth achosion Cod sy'n agored ar ddiwedd y flwyddyn.

### 1.4 Gwella cydymffurfiaeth â'n hargymhellion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Cyflawnwyd pan

- fyddwn wedi bodloni ein dangosydd perfformiad allweddol cydymffurfio ar y cyfan ac ar gyfer y tri phrif grŵp o sefydliadau yn ein hawdurdodaeth (cynghorau lleol, byrddau iechyd a chymdeithasau tai);
- fydd cyfran uwch o sefydliadau yn graddio cysondeb ein terfynau amser a chysondeb ein hargymhellion yn well.

### 1.5. Archwilio sut y gallwn ymgorffori atebion AI yn ein proses gwynion er mwyn gweithio yn fwy effeithlon, gan barhau i ddarparu gwasanaeth ymatebol a chymesur.

Cyflawnwyd pan fyddwn wedi cynnal dadansoddiad marchnad ac ymchwil i atebion AI posibl a phan fyddwn wedi cynnal prosiectau peilot AI.

# Nod Strategol 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant

| **Dangosydd Perfformiad Allweddol** | **Targed 2024-25** | **Gwirioneddol 2024-25** | **Targed 2025-26** |
|---|---|---|---|
| 2.1. Lefel ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth | - | 48% | ≥50% |
| 2.2. Asesiad achwynydd o'n hygyrchedd ('hawdd i gysylltu') | | | |
| Yr holl ymatebwyr | ≥90% | 86% | ≥90% |
| Ymatebwyr a oedd yn fodlon â'r canlyniad | ≥95% | 95% | ≥95% |
| Ymatebwyr nad oedd yn fodlon â'r canlyniad | - | 81% | - |
| 2.3. Cynrychiolaeth o grwpiau targed ymhlith ein hachwynwyr (nifer o 6 grŵp targed sydd wedi'u cynrychioli'n dda) | ≥2 | 1 | ≥2 |
| 2.4. Cyfran o'n cwynion sydd o fewn ein hawdurdodaeth ac nad ydynt yn gynamserol | ≥65% | 60% | ≥65% |

# Camau gweithredu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-26

**2.1 Parhau i godi ymwybyddiaeth o'n rôl ymhlith grwpiau targed drwy adnoddau wedi'u teilwra a drwy fynychu digwyddiadau allgymorth wyneb yn wyneb.**

Cyflawnwyd pan

- fydd ein ffurflenni cwyno a'n taflenni 'Sut i gwyno' ar gael mewn 5 iaith gymunedol
- fyddwn wedi mynychu o leiaf 4 digwyddiad allgymorth.

**2.2 Parhau i ddatblygu ein gwefan, er mwyn gwella taith y defnyddiwr a hygyrchedd y cynnwys.**

Cyflawnwyd pan fyddwn wedi

- lleihau nifer y ffeiliau PDF sydd ar ein gwefan gan 40%
- datblygu'r gallu i fonitro defnydd ein gwefan gan wahanol grwpiau defnyddwyr mewn ffordd ddibynadwy
- ail-werthuso gwasanaethau cymorth cyfredol ein gwefan a nodi gwelliannau posibl, gan gynnwys y posibilrwydd o ymgorffori offer ac atebion AI.

**2.3 Gwella ein cylchlythyr allanol i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a dechrau mesur ymgysylltiad.**

Cyflawnwyd pan

- fyddwn wedi cyhoeddi o leiaf 4 cylchlythyr allanol y flwyddyn
- fyddwn yn gallu gosod y llinell sylfaen ar gyfer ymgysylltu â'n cynnwys ar gyfer 2026-27.

**2.4 Darparu mwy o hyfforddiant ar ein rôl a'n proses ar gyfer cyrff eiriolaeth a swyddogion etholaethol, gan barhau i bwysleisio ein dull newydd o ymdrin â chwynion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd.**

Cyflawnwyd pan fyddwn wedi cyflwyno o leiaf 3 sesiwn hyfforddi i swyddfeydd etholaethol ac o leiaf 3 sesiwn bellach i sefydliadau eraill.

**2.5 Cynllunio a dechrau cyflwyno gweithgareddau i nodi pen-blwydd 20 oed OGCC yn ystod blwyddyn galendr 2026.**

Cyflawnwyd pan fyddwn wedi dechrau cyhoeddi cynnwys i ddathlu'r pen-blwydd ac wedi cadarnhau'r calendr o ddigwyddiadau perthnasol.

**2.6 Cynllunio a gweithredu canllaw cwynion sy'n gyfeillgar i blant mewn cydweithrediad â Chomisiynydd Plant Cymru.**

Cyflawnwyd pan fydd y canllawiau wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi.

# Nod Strategol 3: Cynyddu effaith ein gwaith gwella rhagweithiol

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Targed 2024-25 | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 |
|---|---|---|---|
| 3.1. Cyfran y cwynion y mae cyrff cyhoeddus wedi delio â nhw ac sydd yna wedi'u huwchgyfeirio atom ni: Byrddau Iechyd | ≤5% | 5% | ≤5% |
| 3.2. Cyfran y cwynion y mae cyrff cyhoeddus wedi delio â nhw ac sydd yna wedi'u huwchgyfeirio atom ni: Awdurdodau Lleol | ≤7% | 6% | ≤7% |
| 3.3. Cyfran yr argymhellion o ganlyniad i'n hymchwiliadau estynedig ac ehangach sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn y cydymffurfiwyd â nhw yn unol â'r targed a osodwyd | n/a | n/a | ≥75% |
| 3.4. Cyfran yr achosion o dorri'r Cod Ymddygiad a gyfeiriwyd gennym a gadarnhawyd gan Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru | ≥85% | 85% | ≥85% |

# Camau gweithredu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-26

**3.1 Cynyddu faint o sesiynau hyfforddi sydd ar gael i fwy o gyrff.**

Cyflawnwyd pan

- fydd y system archebu ar gyfer sesiynau agored wedi'i sefydlu.
- darperir 3 sesiwn agored trwy gydol y flwyddyn.

**3.2 Dod â phob cymdeithas tai o dan safonau cwynion.**

Cyflawnwyd pan fyddwn wedi

- gwahodd yr holl gymdeithasau tai sy'n weddill i gydymffurfio â'r safonau a
- nodi amserlen realistig ar gyfer cyflwyno hyfforddiant i'r sefydliadau newydd.

**3.3. O dan ein Strategaeth Data, gwella ein gallu i ddeall ein tueddiadau cwynion.**

Cyflawnwyd pan fyddwn wedi dechrau dadansoddi a monitro tueddiadau gwaith achos ac yn gallu dangos effaith y dadansoddiad hwn ar ein dull o ymdrin â gwaith achos, adroddiadau ar ei liwt ei hun ac adroddiadau thematig.

### 3.4 Lansio'r trydydd ymchwiliad ar ei liwt ei hun

Cyflawnwyd pan fydd y trydydd ymchwiliad wedi'i lansio.

### 3.5 Parhau i ddylanwadu ar sefydliadau yn ein hawdurdodaeth i sicrhau trefniadau gwell o fonitro cydraddoldeb achwynwyr.

Cyflawnwyd pan fyddwn wedi gofyn am ddiweddariad ar drefniadau monitro cydraddoldeb achwynwyr gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a phan fyddwn wedi dadansoddi'r ymateb a nodi'r camau nesaf.

# Nod Strategol 4 - Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Targed 2024-25 | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 |
|---|---|---|---|
| 4.1. Lefelau absenoldeb salwch (nifer cyfartalog y dyddiau) | ≤6.0 | 5.78 | ≤6.0 |
| 4.2. Cyfran y staff sy'n cytuno ein bod yn lle da i weithio | ≤80% | 91% | ≤80% |
| 4.3.Lefel yr amrywiant ar wariant o'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol (llai na) | ≤3% | 0.40% | ≤3% |
| 4.4. Rheolaeth briodol o'n cyllideb | sicrwydd sylweddol a chyfrifon diamod | sicrwydd sylweddol a chyfrifon diamod | sicrwydd sylweddol a chyfrifon diamod |
| 4.5. Cost gyfartalog fesul achos ar gyfer cyfanswm y swyddfa o ran cau gwaith achos | ≤£500 | £459 | ≤£500 |
| 4.6. Cost gyfartalog fesul cwyn ar gyfer cyfanswm y swyddfa o ran cau cwynion | ≤£1,350 | £1,274 | ≤£1,350 |
| 4.7. Ein hôl troed carbon (CO2e kg wedi'i gynhyrchu) | ≤60,000 kg $CO_2e$ | 58,514 kg $CO_2e$ | ≤60,000 kg $CO_2e$ |

# Camau gweithredu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-26

**4.1 Cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gweithredu Digidol, Data a Thechnoleg.**

Cyflawnwyd pan fyddwn wedi

- trosglwyddo'n llwyddiannus i'n Darparwr Gwasanaeth newydd a Reolir gan TG
- gwella ein mesurau seiberddiogelwch
- gwerthuso cyfleoedd AI; a
- gwerthuso canlyniadau ein Strategaeth Data.

**4.2 Cynnal defnydd a gwastraff ynni.**

Cyflawnwyd pan nad yw ein gwastraff a'n hynni yn cynyddu o gymharu â'r llynedd.

**4.3 Cyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth Pobl.**

Cyflawnwyd pan

- fyddwn wedi cynnal y lefel uchel o ymgysylltiad staff
- fydd y camau gweithredu bwriadol a manylir yn y Cynllun Gweithredu blynyddol wedi cael eu cyflawni a phan fyddwn wedi recriwtio a defnyddio adnoddau yn llwyddiannus yn ôl yr angen.

**4.4 Parhau i gefnogi llesiant staff, drwy rymuso staff i gymryd camau cadarnhaol a darparu cyfleoedd a gweithgareddau i hynny ddigwydd drwy gydol y flwyddyn.  Parhau i gefnogi pob Arweinydd yn unol â'n Siarter Arweinyddiaeth a phob aelod o staff yn unol â Gweithio yn y Dyfodol yn OGCC.**

Cyflawnwyd pan fyddwn yn cyflwyno gweithgareddau a mentrau llesiant ac yn cyflawni'r holl fwriadau a manylir yn "Gweithio yn y Dyfodol yn OGCC" mewn perthynas â llesiant.

**4.5. Parhau i fod yn ariannol atebol a dangos safonau uchel o dryloywder.**

Cyflawnwyd pan fyddwn yn creu cyfrifon diamod ynghyd â barn archwilio mewnol ac allanol cadarnhaol.

**4.6. Defnyddio ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig i lywio ein Cyflwyniad o Amcangyfrifon ar gyfer 2026-27.**

Cyflawnwyd pan ddefnyddir ein gwaith ar fodelu capasiti i lywio ein Cyflwyniad o  Amcangyfrif ar gyfer 2026-27.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

Ebost: holwch@ombwdsmon.cymru

Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales